
# Gwledd o lyfrau Nadolig i blant


## Aled Davies


Gyda'r Nadolig yn agosáu, fe fydd yna hen grwydro siopau a'r we am anrhegion i'w rhoi i deulu a ffrindiau. Yn bersonol mae'n gas gen i fynd ar gyfyl siopau rhwng rwan a'r Nadolig gan fod y pwyslais i gyd ar anrhegion Nadolig di-bwrpas, lle gwelwn becynnu siocledi, sanau a sebon mewn bocsys ffansi, ond heb fawr o sylwedd tu fewn. Heb os, mae llawer o bres yn cael ei wastraffu ar anrhegion dianghenraid, a llawer o'r rheini yn gorffen i fyny yn y siop elusen yn y flwyddyn newydd.

Bydd eglwysi ac Ysgolion Sul hefyd yn trefnu eu partïon gyda Sion Corn, a fydd yn dod gyda'i anrheg blynyddol, ac eto yn aml, bocsus siocledi fydd yn cael eu cyflwyno ar ei ran. Tybed a ddylem fel Cristnogion ac eglwysi roi ychydig mwy o feddwl i mewn i'r hyn rydym yn ei rannu dros y tymor yma? Fel cyhoeddwr llyfrau Cristnogol, yn naturiol rwyf am weld mwy yn rhannu llyfrau sy'n atgoffa plant a phobl o bob oed o'r hyn yw'r Nadolig, ac o bwy yw Iesu Grist mewn gwirionedd. Mae gennym ni gyd y cyfle i rannu'r Newyddion Da dros dymor y Nadolig.

Eleni eto mae toreth o lyfrau newydd wedi eu cyhoeddi, a rheini yn gwbl addas i'w cyflwyno yn anrhegion. Dyma ddetholiad cryno o rai llyfrau newydd.




## I OEDOLION

Ymhlith y detholiad o lyfrau newydd i oedolion mae cyfrol **Gweddïo'r Salmau**, sy'n cael ei adolygu yn y rhifyn hwn o Cristion, ynghyd â chyfrol arall ar weddi, sef **Byw y Weddi** gan Trystan Owain Hughes, sy'n cynnig myfyrdod ar Weddi'r Arglwydd. Mae **Gair Duw ar Lafar Gwlad** gan Dewi Arwel Hughes yn cynnig esboniad ar ymadroddion Cymreig sy'n deillio o'r Beibl, tra mae **Ambell Gam drwy'r Flwyddyn** gan Noel Davies yn gyfrol ddefosiynol wreiddiol yn ein tywys drwy brif wyliau'r calendr Cristnogol. Cyfrol rhodd hyfryd yw **Codi'r Llen**, sy'n cynnwys 40 myfyrdod a llun o wragedd allweddol yn yr Hen Destament, tra bod cyfrol **O Ddydd i Ddydd** yn cynnwys 365 myfyrdod Beiblaidd ar gyfer blwyddyn gyfan o fyfyrdodau a gweddi.

## I BLANT

Mae nifer o deitlau cyffrous ac arloesol newydd ar gael i blant eleni, gan gynnwys:

**Llyfr Llechen Beiblaidd** - y llyfr cyntaf yn y Gymraeg i gynnwys sgrin electronig LCD er mwyn tynnu lluniau gyda stylus.

**Llyfr Carioci Carolau'r Nadolig** - casgliad o garolau Cymraeg i'r plant lleiaf gyda chyfeiliant ar drac sain digidol o fewn y llyfr.

**Llyfr Sŵn Anifeiliaid y Beibl** - cyfrol hardd sy'n cynnwys 40 botwm - pob un ohonynt yn gwneud sŵn anifail gwahanol.

**Llyfr Piano'r Nadolig** - cyfrol liwgar sy'n cynnwys 6 carol gyda phiano electronig wedi ei osod ar glawr y llyfr.

**Ganwyd Iesu** - llyfr popyp stori'r Nadolig gyda synau i'w clywed gan gymeriadau ac anifeiliaid sy'n rhan o stori'r Nadolig.

Maent i gyd ar gael o'ch siop lyfrau Gymraeg neu Gristnogol leol, a byddai'n dda gweld mwy yn cefnogi ein siopau llyfrau lleol yn hytrach na phrynu ar y we






Cristion TACHWEDD 2024.indd 17 12/10/2024 21:06:10